

## To the Welsh

Beloved Countrymen,—It is not without feelings of gratitude to God that we have the honor of presenting before you this valuable book in the Welsh language. Many of you have freely given your opinion of this book, before you ever saw it, and condemned it, but now, after laboring so long under disadvantages, you can read it for yourselves, and see whether your former opinion was correct. We did not of ourselves take upon us this work, but were counselled to do it by our President F. D. Richards, who is over us in the Lord. We need not praise this book, any more than the Bible, for both speak for themselves, to those that love light and truth. It will suffice, therefore, to say that we know it is a good book, and a gift of God, and that whoever will believe and do according to its words, shall receive eternal life, but it is in vain to think that all will say the same of it; for few are those that walk in the narrow path.

As to the translation, we may say it is the best that could be done, under disadvantages which the majority of translators do not labor under. Perspecuity and plain language has been aimed at more than any kind of adornment; and we trust that the meaning of the English version by the Prophet Joseph Smith has been rendered as faithfully as could be done. It can be seen, by reading the Book of Mormon, that perfection was not professed even by the writers of the plates at first; and it would be unreasonable for anyone to expect perfection in the second translation of the same. Neither did the translators of the Bible take upon themselves to be perfect; for, from time to time, various corrections were made in their translations; and after the Book of Mormon, in the Welsh language, shall have been revised so much as the Bible, it may be supposed that it will become more perfect, at least, as far as language is concerned. And we may add here that is easier for others to detect errors, than it is for a translator to avoid them.

Now, we leave this work for the consideration of our fellow-countrymen, hoping that many of them will believe it, and that it will be the means of bringing them to the knowledge of God, which is eternal life. May God bless all the honest in heart, that they may be brought through this work, along with other means, to embrace the Gospel; and may the Saints be enlightened and edified in perusing it, that the name of God may be glorified, and his designs accomplished, in the name of Jesus Christ. Amen.

## AT Y CYMRY.

ANWYL GYDGENEDL.—Nid heb deimladau diolchgar i Dduw, y meddwn yr anrhydedd o gyflwyno y llyfr gwerthfawr hwn i ddwyllaw ein cydwladwyr yn yr iaith Gymraeg. Mae llawer o'n cydgenedl wedi bod yn rhoddi eu barn am y llyfr hwn cyn erioed ei weled, ac wedi ei gondemnio; ond yn awr, wedi bod yn hir dan anfanteision, gallant ei ddarllen drostynt eu hunain, a gweled os yw eu barn flaenorol yn gywir. Ni wnaethom y gorchwyl o gyfieithu a chyhoeddi y llyfr hwn o honom ein hunain, eithr trwy orchymyn ein Llywydd F. D. Richards, yr hwn sydd drosom yn yr Arglwydd. Nid oes achos i ni ganmawl y llyfr yma, yn fwy na chanmawl y Beibl, o herwydd y mae'r ddau yn llefaru drostynt eu hunain, i'r sawl ag ydynt yn caru goleuni a gwirionedd. Digon yw i ni ddywedyd y gwyddom ei fod yn llyfr da, ac yn rodd Duw, ac y caiff pwy bynag a'i credu ac a wnel yn olei eiriau, fywyd tragywyddol: ond ofer yw dysgwyl y dyweda *parob* felly am dano, canys *ychedig* yw y rhai sydd yn rhodio y ffordd gul.

Gyda golwg ar y cyfieithad, gallwn ddweyd ei fod y goreu a allesid ei wneuthur, yn ngwynneb yr anfanteision, y rhai nad yw y cyffredin o gyfieithwyr yn llafurio o danynt. Yr ydys wedi amcanu at eglurdeb ac iaith syml, yn fwy nag am un math o addurn; ac hyderwn fod meddwl yr argraffiad Seisnig o eiddo y Prophwyd JOSEPH SMITH, wedi ei roddi mor gywir ag y gallesid. Gellir gweled, trwy ddarllen Llyfr Mormon, na phroffesid anffaeledigrwydd hyd y nod gan ysgrifenywyr y llafnau ar y cyntaf; ac y mae yn afresymol i neb ddysgwyl anffaeledigrwydd yn yr ail gyfieithad o hono. Ni hönwyd anffaeledigrwydd ychwaith gan y rhai a fuont yn cyfieithu y Beibl, canys o bryd i bryd y mae amryw ddiwygiadau wedi eu gwneuthur ynddo; ac wedi i Lyfr Mormon, yn y Gymraeg, gael ei wella gymmaint ag a gafodd y Beibl, gellir barnu y daw yn berffeithiach, o ran ei iaith, beth bynag. Wrth gwrs, y mae yn rhwyddach i ereill weled beiau, nag yw i gyfieithydd eu gochelyd.

Bellach, cyflwynwn y gwaith hwn i sylw ein cydwladwyr, gan ddymuno y gwna llaweroedd o honynt ei gredu, ac y dwg hwynt i adnabyddiaeth o Dduw, yr hyn yw bywyd tragywyddol. Bendithied Duw yr holl rai gonest eu calon, fel y delont trwy y gwaith hwn, ynghyd â moddion ereill, i goffeidio yr Eſfengyl; a chaffed y Saint eu goleuo a'u hadeiladu yn y darlleniad o hono, fel y byddo i enw Duw gael ei ogoneddu, ac i'w amcanion gael eu cwblhau, yn enw Iesu Grist. Amen.

Eich gostyngedig weision yn y gwirionedd,

W. S. PHILLIPS,  
JOHN DAVIS,  
THOMAS PUGH.

*Merthyr-Tydfil, Ebrill 6, 1852.*